



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

CYHOEDDIAD, DOGFENNU

Bwrdd Diwydiant Bwyd a Diod Cymru: nodyn gan y Cadeirydd (Mehefin 2024)

Y diweddaraaf am ddiwydiant bwyd a diod Cymru.

Cyhoeddwyd gyntaf: 13 Mehefin 2024

Diweddarwyd ddiwethaf: 13 Mehefin 2024

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://www.llyw.cymru/bwrdd-diwydiant-bwyd-diod-cymru-nodyn-gan-y-cadeirydd-mehefin-2024-html> i weld y fersiwn ddiweddaraaf.

Gwybodaeth am [hawlfraint](#).

Mae'n anrhydedd mawr cael fy ethol yn Gadeirydd Bwrdd Diwydiant Bwyd a Diod Cymru (BDBDC) ac rwyf hefyd wrth fy modd o gael Alison Lea-Wilson yn Is-gadeirydd y bwrdd. Ar ôl treulio dros 40 mlynedd yn y sector, gyda phob un ond tair o'r blynyddoedd hynny'n cael eu treulio yng Nghymru, rwy'n ymwybodol iawn o'r heriau a'r gofynion sy'n newid yn barhaus y mae cwmnïau gweithgynhyrchu bwyd a diod yn eu hwynebu bob dydd. Rwyf wedi bod yn ddigon ffodus i weithio mewn ystod eang o gategorïau cynnyrch, sydd wedi rhoi cyfle i mi ddeall yr amrywiaeth a'r cymhlethdod sy'n gysylltiedig â'r ystod eang o ddeunyddiau a phrosesau crai sy'n hanfodol i'n sector.

Hefyd yn ymuno â'r bwrdd am y tro cyntaf mae Alison Harvey, Valerie Creusailor a Graham Black, pob un ohonynt wedi'u penodi'n ddiweddar. Rwy'n siŵr y bydd eu gwybodaeth a'u harbenigedd yn ychwanegiad gwerthfawr ac yn cael eu croesawu gan y grŵp. Mae Huw Thomas o Puffin Produce hefyd wedi cael ei ailbenodi ac mae pob aelod o'r bwrdd yn falch iawn o gael mynediad at ei brofiad a'i arbenigedd sy'n rhychwantu'r sectorau amaethyddol a phrosesu bwyd.

Un o'r tasgau cyntaf a wnaed yn ein cyfarfod cyntaf oedd datblygu matrices sgiliau a phrofiad er mwyn deall yn well alluoedd aelodau'r bwrdd a'u profiad mewn perthynas â chategorïau cynnyrch gwahanol ac ehangder meysydd y diwydiant bwyd. Mae hyn wedi ein galluogi i fapio ein harbenigedd yn erbyn y gwahanol is-sectorau a phynciau sy'n berthnasol yn y gadwyn fwyd ac rwy'n galonogol bod ehangder ein gwybodaeth a'n profiad yn cwmpasu'r mwyafrif helaeth o is-sectorau ym maes gweithgynhyrchu bwyd.

Mae mynediad i'r bwrdd a dealltwriaeth gliriach o'i swyddogaeth o'r pwys mwyaf. Wrth symud ymlaen bydd y bwrdd yn cyfarfod wyneb yn wyneb unwaith y chwarter (am un diwrnod) a rhwng y cyfarfodydd corfforol hyn bydd cyfarfod rhithwir byrrach. Rhan o gylch gwaith y bwrdd yw ymgysylltu â chhydrannau eraill y gadwyn gyflenwi, a'n bwriad yw defnyddio'r cyfarfodydd ar-lein hyn i wahodd rhanddeiliaid o amaethyddiaeth, lletygarwch a manwerthu i rannu'r heriau a'r cyfleoedd yn eu meysydd gweithredol. Bydd hyn yn caniatáu i aelodau'r bwrdd

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Evch i <https://www.llyw.cymru/bwrdd-diwydiant-bwyd-diod-cymru-nodyn-gan-y-cadeirydd-mehefin-2024-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am [hawlfraint](#).

werthuso unrhyw ymyriadau posibl a all fod o fudd i'r sector cyfan.

Rydym yn ffodus yng Nghymru i gael cefnogaeth sylweddol gan Lywodraeth Cymru mewn disgyblaethau allweddol sy'n hanfodol i economi fwyd gadarn a chynyddol. Mae'r rhwydwaith cymorth hwn, sy'n cynnwys y rhwydwaith clystyrau, yn caniatáu llif o wybodaeth rhwng cwmnïau bwyd a rhanddeiliaid eraill. Rwy'n awyddus i ddatblygu cysylltiadau agosach rhwng y blaenoriaethau strategol a nodwyd gan Ysgrifennydd y Cabinet ac aelodau'r bwrdd, â gwaith y rhwydweithiau clwstr, sydd bellach â dros 300 o aelodau.

Bydd ymgysylltu ag Ysgrifennydd y Cabinet a swyddogion Llywodraeth Cymru sy'n ymwneud â strategaeth a chyflawni yn hanfodol er mwyn sicrhau ein bod yn gwneud y mwyaf o effaith y bwrdd drwy ddull cydgysylltiedig a ddylai gael ei yrru gan ddiwydiant. Bydd mynediad at ddata perthnasol ac adroddiadau cyfredol ar y materion sy'n wynebu'r diwydiant yn chwarae rhan bwysig wrth lunio'r agenda ar gyfer trafodaethau mewn cyfarfodydd bwrdd. Mae rhwystrau i fasnach ryngwladol, mynediad at staff sydd wedi'u hyfforddi'n briodol, cynyddu gofynion cynaliadwyedd, a chostau gorbenion sydd uwchlaw chwyddiant yn ddim ond rhai o'r ffactorau sy'n cyrraedd y bwrdd. Ein rôl fydd trafod ymyriadau creadigol ac ymarferol posibl i gefnogi'r sector bwyd yng Nghymru.

Yn ystod y misoedd nesaf rwy'n gobeithio y gallwn ddefnyddio'r porth hwn i gyflwyno gwahanol aelodau'r bwrdd sydd wedi'u gwasgaru'n ddaearyddol ledled Cymru. Rwy'n gobeithio y bydd y lledaeniad daearyddol hwn yn hwyluso sgysiau a chyfathrebu rhwng y sector ac aelodau'r bwrdd yn lleol. Bydd amryw o aelodau'r bwrdd hefyd yn mynychu Sioe Frenhinol Cymru ym mis Gorffennaf a byddent yn croesawu'r cyfle i barhau â'r sgysiau hynny gyda chydweithwyr yn y sector, o amaethyddiaeth, prosesu bwyd, manwerthu a chyfanwerthu. Gobeithiwn y bydd y bartneriaeth o fudd i integreiddio yn y gadwyn cyflenwi bwyd ac yn arwain at drawsffrwythloni syniadau ac economi fwyd gryfach yng Nghymru.

Yr Athro David Lloyd, Cadeirydd Bwrdd Diwydiant Bwyd a Diod Cymru

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Evch i <https://www.llyw.cymru/bwrdd-diwydiant-bwyd-diod-cymru-nodyn-gan-y-cadeirydd-mehefin-2024-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am [hawlfraint](#).

Efallai na fydd y ddogfen hon yn hollol hygyrch.

Drllennwch ein [datganiad hygyrchedd](#) i gael rhagor o wybodaeth.

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://www.llyw.cymru/bwrdd-diwydiant-bwyd-diod-cymru-nodyn-gan-y-cadeirydd-mehefin-2024-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am [hawlfraint](#).